Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cofnodion Cryno Cyfarfod y Bwrdd, 26 Mai 2017**

**Yn bresennol:**
Yr Ysgrifennydd Parhaol (Cadeirydd)
Gawain Evans
Andrew Goodall
Peter Kennedy
Natalie Pearson
David Richards
Elan Closs Stephens
James Turner
Ann Keane
James Price (Eitemau 4-7)
Lynne Schofield
Jeff Godfrey
Adrian Webb
Jo-Anne Daniels (yn dirprwyo dros Owen Evans)

**Yn cefnogi:**
Jo Salway (Eitem 2)
Toby Mason (Eitem 2)
Gwenllian Roberts (Eitem 3)
Des Clifford (Eitem 4)
Piers Bisson (Eitem 4)
Caren Fullerton (Eitem 5)
Gez Martin (Eitem 5)
Paul Sullivan (Eitem 5)

**Ysgrifenyddiaeth:**
Emma Alexander
Sarita Marshall

**Perfformiad Llywodraeth Cymru**

**1. Adroddiad Cyllid [Bwrdd(17)022]**

1.1 Cyflwynodd Gawain Evans, Cyfarwyddwr Cyllid, bapur yn amlinellu sefyllfa Llywodraeth Cymru o ran yr alldro dros dro ar gyfer 2016-17.

1.2 Clywodd aelodau'r Bwrdd y byddai cyfrifon y Byrddau Iechyd Lleol (BILl) yn cysylltu â Chyfrifon Blynyddol Llywodraeth Cymru ac y byddai Swyddfa Archwilio Cymru yn edrych yn ôl ar y cylch cynllunio tair blynedd cyntaf, a gyflwynwyd ar gyfer y BILl. Byddai Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Phrif Weithredwr y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG), yn bresennol yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus fis Gorffennaf i drafod hyn.

**2. Monitro Cynnydd Cyflawni – Diweddariad ar Strategaethau Trawsbynciol [Bwrdd(17)023]**

2.1 Cafodd y drafft diweddaraf o'r ddogfen strategaethau ei gyflwyno i'r Bwrdd. Cydnabuwyd pwysigrwydd y cyfraniadau a gafwyd o bob adran

yn y sefydliad a diolchodd yr Ysgrifennydd Parhaol i bawb a oedd wedi cymryd rhan am y gwaith sylweddol a wnaed i lunio'r ddogfen.

2.2 Trafododd aelodau'r Bwrdd y ddogfen ddrafft a byddai'r pwyntiau a godwyd yn cael eu hystyried wrth ddatblygu'r drafft terfynol.

2.3 Nododd aelodau'r Bwrdd bwysigrwydd swyddogaethau statudol Llywodraeth Cymru, a fyddai'n parhau i gael eu cyflawni ynghyd â'r Strategaethau Trawsbynciol.

## 3. Grŵp Lefel Uchel Wylfa Newydd [Bwrdd(17)024]

3.1 Cyflwynodd Gwenllian Roberts, Dirprwy Gyfarwyddwr, Uned Ynni Cymru, y newyddion diweddaraf am gynllunio rhaglen o weithgarwch Llywodraeth Cymru mewn perthynas â meysydd thematig allweddol. Trafodwyd pwysigrwydd sicrhau bod ymgysylltu cadarn â'r broses Gorchmynion Caniatâd Datblygu. Byddai trafodaethau pellach ynglŷn ag agweddau cyfreithiol ar y gwaith hwn yn cael eu cynnal y tu allan i'r cyfarfod.

3.2 Cytunodd aelodau'r Bwrdd fod y rhaglen yn enghraifft ragorol o ddull trawsbynciol o weithio a llongyfarchwyd Gwenllian ar y gwaith a wnaed hyd yma. Cytunodd aelodau'r Bwrdd y dylai uwch-berchnogion gael cyfrifoldeb dros ffrydiau gwaith y rhaglen a gofynnwyd am:

- gyngor yn gyflym ar gynigion ar gyfer aildrefnu adnoddau
- rhoi ystyriaeth a oedd angen cymeradwyaeth y Cabinet i froceru datrysiadau trawslywodraethol.

**Corfforaethol**

## 4. Y Trefniadau Pontio o'r Undeb Ewropeaidd (UE) [Eitem lafar]

4.1 Rhoddodd Des Clifford, Cyfarwyddwr Swyddfa'r Prif Weinidog, a Piers Bisson, Dirprwy Gyfarwyddwr – Trefniadau Pontio Ewropeaidd, y newyddion diweddaraf am Drefniadau Pontio'r UE. Clywodd aelodau'r Bwrdd fod sefyllfa negodi'r UE wedi cael ei chyhoeddi. Nid oedd effaith y Bil Diddymu Mawr yn hysbys hyd yma, a chytunwyd y dylid cynnal trafodaeth am adnoddau y tu allan i'r cyfarfod.

## 5. Gweithio’n Hyblyg – y Camau Nesaf [Bwrdd(17)025]

5.1 Cafodd aelodau'r Bwrdd y newyddion diweddaraf am y cynllun peilot Gweithio'n Hyblyg, a oedd wedi cael ei werthuso'n llawn ac wedi bod trwy broses sicrhau ansawdd yn erbyn sefydliad allanol. Roedd y cynllun peilot wedi manteisio ar arweinyddiaeth ragorol yn swyddfa Merthyr ac wedi bod yn llwyddiannus. Fodd bynnag, byddai angen alinio â rhaglenni gwaith lefel uchel eraill a chynllunio'n ofalus wrth gyflwyno'r cynllun yn ehangach.

5.2 Diolchodd yr Ysgrifennydd Parhaol i'r tîm prosiect a nododd y brwdfrydedd dros y broses yn swyddfa Merthyr.

5.3 Nododd aelodau'r Bwrdd y gwaith a wnaed a chytuno mewn egwyddor ag ymestyn gweithio'n hyblyg yn ehangach ar draws Llywodraeth Cymru yn amodol ar gael cytundeb Gweinidogol. Teimlai aelodau'r Bwrdd y byddai angen newid diwylliant er mwyn ymestyn y rhaglen beilot ar draws y sefydliad, o ran arferion rheoli a gweithio mewn rhai meysydd, ac y byddai rhaid ei chyflwyno'n raddol felly, gan fabwysiadu dull ymgysylltu wedi'i dargedu. Cytunwyd rhoi'r dasg i'r Pwyllgor Gweithrediadau weithio gyda'r Prif Swyddog Digidol i weithredu'r weledigaeth, gan ymchwilio i'r modeli arfaethedig ar gyfer gweithredu, maint yr uchelgais ac ystyriaethau o ran amseru.

**Eitemau Rheolaidd**

**6. Eitemau'r Ysgrifennydd Parhaol ac Adroddiadau Eithrio [Eitemau llafar]**

*Eitemau'r Ysgrifennydd Parhaol*

6.1 Nododd yr Ysgrifennydd Parhaol fod marwolaeth y Gwir Anrh Rhodri Morgan, cyn-Brif Weinidog Cymru, wedi cael effaith ar staff, a diolchodd i Natalie Pearson, Pennaeth Ymgysylltu ac Arloesi, am y trefniadau a oedd wedi cael eu gwneud.

6.2 Adroddodd yr Ysgrifennydd Parhaol ei bod wedi bod yn bresennol yn niwrnod datblygu'r Pwyllgor Archwilio a Risg (ARC), a oedd yn cynnwys sgwrs ar ddiwylliant risg a sesiwn ar faterion llywodraethu a rheoli risg cyffredinol o dan arweiniad Archwilydd Cyffredinol Cymru.

6.3 Gwahoddodd yr Ysgrifennydd Parhaol aelodau'r Bwrdd i rannu materion allweddol a oedd wedi codi yn eu meysydd. Roedd y rhain yn cynnwys y newyddion diweddaraf am y Cynllun Ymadael Gwirfoddol, y fasnachfraint rheilffyrdd, seibrddiogelwch, a gwahoddiad i fynd i ddigwyddiadau yn ystod Wythnos Cydraddoldeb, yn dechrau ar 19 Mehefin.

6.4 Diolchodd yr Ysgrifennydd Parhaol i Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Phrif Weithredwr y GIG, am ei ddiwydrwydd a oedd wedi helpu i ddiogelu systemau GIG Cymru yn wyneb yr ymosodiad seibr byd-eang.

**7. Newyddion diweddaraf yr Is-bwyllgorau**

7.1 Fel aelod o'r Pwyllgor Gweithrediadau, adroddodd Gawain Evans fod y cyfarfod diwethaf wedi cael ei gynnal yn swyddfa Merthyr, a bod y Pwyllgor hefyd wedi cynnal sesiwn ymgysylltu â'r staff yno yn ymwneud â Gweithio'n Hyblyg.

7.2 Adroddodd James Turner, Cadeirydd Pwyllgor Tâl yr Uwch-wasanaeth Sifil, fod y Pwyllgor wedi ystyried papur ar drefniadau tâl yr Uwch-wasanaeth Sifil yn ei gyfarfod diwethaf.

7.3 Diolchodd Elan Closs Stephens, Cadeirydd ARC, i'r tîm Llywodraethu Corfforaethol am drefnu'r diwrnod datblygu.

7.4 Clywodd aelodau'r Bwrdd hefyd fod yr adolygiad o'r Rhaglen Ddeddfwriaethol wedi cael ei gwblhau a'i gyflwyno i'r Cabinet i'w ystyried.

## 8 Unrhyw fater arall

8.1 Tynnodd yr Ysgrifennydd Parhaol sylw aelodau'r Bwrdd at y papurau i'w nodi.

**Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd, 1 Mehefin 2017**